**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

**This response was submitted to the Equality and Social Justice Committee consultation on Social Partnership and Public Procurement (Wales) Bill**

**SPPP 31**

**Ymateb gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Response from: Welsh Local Government Association**

---

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder

22 Gorffennaf

# Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Richard Dooner a Karen Higgins

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (y Gymdeithas) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**
Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi cysylltu â'u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, ei hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod pennaf** yw hyrwyddo llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau Cynghorau yng Nghymru, eu diogelu, eu cefnogi a'u datblygu.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**
- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau'r rhyddid mwyaf yn lleol mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Dadlau o blaid cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau a'i sicrhau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithluoedd yn effeithiol

**Rhagarweiniad**

Wrth ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) fe gynigiom ein cefnogaeth lwyr i'r ddeddfwriaeth gan bwysleisio fod llywodraeth leol wedi ymrwymo i egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg ers amser maith. Mae'r Bil yn hyrwyddo'r hyn

y credir sy'n arfer orau ac i raddau helaeth yn adlewyrchu'r hyn a wneir eisoes yn ein hawdurdodau lleol.

**Ymateb i Gwestiynau'r Pwyllgor:**

***1. Egwyddorion cyffredinol Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a'r angen am y ddeddfwriaeth er mwyn cyflawni nod y polisi fel y'i datganwyd.***

Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg

Mae'r Gymdeithas ar y cyfan o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil a defnyddio deddfwriaeth fel dull o gyflawni nod y polisi yng nghyswllt partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg.

Mae partneriaeth gymdeithasol yn beth cyfarwydd ym myd llywodraeth leol a cheir trefniadau hirsefydlog rhwng cyflogwyr llywodraeth leol ac undebau llafur, yn enwedig felly'n lleol a thrwy bartneriaethau cenedlaethol fel Cyngor Cyswllt Cymru. Mae gan bartneriaeth gymdeithasol ystyr gwahanol i bawb, fodd bynnag, ac yn aml cyfyd anawsterau oherwydd camddehongli neu ddiffyg cyd-ddealltwriaeth ac mae hynny'n creu anghysondebau. Ceir gobaith y bydd yr egwyddorion a sefydlir yn y Bil, ei ddarpariaethau a'r canllawiau atodol yn rhoi gwell eglurder ynglŷn ag ystyr partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg yng nghyd-destun Cymru, yn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ac yn creu rhywfaint o gysondeb fel bod sefydlu arfer orau drwy addysgu a hyrwyddo yn hytrach na rhagnodi.

Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

Rydym hefyd o blaid y darpariaethau ynghylch caffael cymdeithasol gyfrifol. Mae'r amcanion y bwriedir eu cyflawni drwy'r Bil i gyd yn bethau y gallwn eu gwneud yn awr o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer caffael.

Mae gennym hefyd ddeddfwriaeth flaengar yng Nghymru fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Deddfau hyn ac eraill hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a fwriedir. Pennir mai diben y ddeddfwriaeth hon yw creu'r amodau ar gyfer gwell cysondeb; mae cynghorau eisoes yn rhannu'r un amcan drwy'r ddyletswydd uwch ynghylch lles y gymuned ac os oes unrhyw anghysondeb, felly, nid diffyg deddfwriaeth neu gymhelliant sy'n gyfrifol am hynny. Mae'n rhaid fod yno resymau pam nad ydym yn cyflawni'r uchelgais wleidyddol y mae'r Bil newydd yn anelu ato.

## *1a Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol*

Mae'r Gymdeithas o blaid sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, yn enwedig felly gan ystyried llwyddiant y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol yn ystod y pandemig. Mae llywodraeth leol wastad wedi bod yn gefnogol i drefniadau partneriaeth gymdeithasol boed hynny ar lefel leol neu genedlaethol, ac maent yn bartneriaid gweithredol yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol, Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a chyrff ar gyfer sectorau penodol fel y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion a'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol.

Credir mai'r peth pwysicaf wrth sefydlu corff newydd fel y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yw manteisio ar y cyfle i adolygu'r amrywiaeth helaeth o strwythurau partneriaeth sydd eisoes yn bod, a symleiddio'r seilwaith ar gyfer partneriaethau cymdeithasol. Bu twf arwyddocaol mewn cyrff partneriaeth gymdeithasol ac is-strwythurau ac wrth greu pob un ohonynt mae'r baich yn cynyddu gan fod gofyn i'r partneriaid ddarparu adnoddau ar gyfer bod yn aelodau a chefnogi gwaith y bartneriaeth dan sylw. Er y bydd llywodraeth leol yn dal i gyfranogi'n weithredol mewn partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg yng Nghymru ac ymrwymo'n llwyr iddynt, mae angen cydnabod y bydd cael gormod o gyrff yn golygu y caiff adnoddau eu hymestyn yn rhy helaeth i fod yn effeithiol. Oherwydd hynny mae angen rhoi mwy ystyriaeth i'r amrywiaeth o wahanol gyrff partneriaeth sy'n bodoli, eu symleiddio a phenderfynu a fydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn disodli strwythurau eraill neu'n eu gwneud yn ddiangen. Mae hynny'n cynnwys penderfynu ynghylch dyfodol Cyngor Partneriaeth y Gweithlu y mae llywodraeth leol wedi bod yn rhan ohono ers mwy na degawd.

Mae angen eglurder ynghylch swyddogaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'r ffordd y bydd yn gweithio â strwythurau eraill, yn ymwneud â hwy a'u parchu, yn enwedig yng nghyswllt trefniadau lleol sefydledig a chyrff fel Cyngor Cyswllt Cymru.

Mae'r drefn aelodaeth ac enwebu, gan gynnwys sut y penodir aelodau i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, yn awgrymu y ceisir cyngor gan unigolion neu gyrff addas, ond er y pennir swyddogaeth bendant i TUC Cymru yng nghyswllt aelodaeth o undebau llafur, nid yw'r Bil yn cynnig eglurder nac unrhyw ddarpariaethau sy'n cydnabod neu'n gwarchod swyddogaeth y sefydliadau sy'n cyflogi, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd wedi'i hardystio o dan Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi). Awgrymir fod angen gwell eglurder er mwyn sicrhau y cydnabyddir mai'r Gymdeithas yw'r corff cynrychioladol priodol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a'r cyfrwng mwyaf addas ar gyfer enwebiadau i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, neu fel arall bod y Bil yn nodi y bydd yr aelodaeth yn deillio o sefydliadau neu gymdeithasau ardystiedig cyflogwyr lle bo'r rheiny'n bodoli. Bydd yn bwysig gwneud hynny er mwyn parchu a gwarchod swyddogaeth gynrychioladol ffurfiol sefydliadau fel y Gymdeithas wrth i'r aelodaeth newid gyda threigl amser.

***1b Dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus penodol i geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig (neu pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr eraill ar ran eu staff) wrth bennu eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015***

Mae gan awdurdodau lleol drefniadau partneriaeth gymdeithasol sefydledig a ddatblygwyd mewn partneriaeth â gweithwyr drwy gyfrwng eu hundebau llafur cydnabyddedig er mwyn bodloni anghenion lleol. Mae pob awdurdod lleol yn sefydliad annibynnol, hunanlywodraethol ac yn wahanol yn ei faint, ei strwythur, ei ddiwylliant a'i gyd-destun a bydd trefniadau partneriaeth lleol yn adlewyrchu hynny, ond bydd yr holl drefniadau'n seiliedig ar yr un egwyddorion sylfaenol sy'n ategu trefniadau partneriaeth ffurfiol at ddibenion ymgynghori ac ymgysylltu â'r gweithlu, ond bydd y drefn yn wahanol ymhobman.

Ymddengys bod y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn cydnabod yr arfer dda yn hyn o beth a'i datblygu, yn hytrach na chyflwyno haen ychwanegol o fiwrocratiaeth, ac fe groesewir hynny. Mae'r gefnogaeth i'r Ddyletswydd yn ddibynnol ar yr ymrwymiad hwn i ddal i gynnal a chryfhau trefniadau partneriaeth gymdeithasol lleol drwy ehangu cyfranogiad a chyswllt â'r gweithlu wrth gynnal trafodaethau ynglŷn â gwaith teg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n rhaid wrth hyblygrwydd, fodd bynnag, a dylai unrhyw fframwaith hyrwyddo cysondeb heb osod cyfyngiadau ymarferol. Mae angen parchu doethineb a phenderfyniadau lleol a pheidio â'u llyffetheirio.

Mae'r Ddyletswydd yn rhoi cyfle i greu cysondeb o safbwynt dealltwriaeth, yn hytrach na phennu unrhyw ddull gweithredu penodol, gan na fyddai hynny'n addas ymhobman. Mae angen cyfleu ac egluro beth yw ystyr partneriaeth gymdeithasol yng nghyd-destun Cymru, yr egwyddorion sylfaenol sy'n ategu'r ymarfer a'r canlyniadau a ddisgwylir, fel bod sicrwydd ynglŷn â'r agenda polisi cyhoeddus a'r uchelgais yn hyn o beth. Bydd dealltwriaeth gyffredin o bartneriaeth gymdeithasol sy'n dylanwadu ar ymarfer yn hytrach na'i ragnodi, yn annog cysondeb ond yn galluogi ardaloedd lleol i wneud pethau'n wahanol fel bod eu trefniadau'n briodol, yn berthnasol ac yn addas at y diben.

***1c Dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015***

Mae’r Gymdeithas o blaid y ddyletswydd arfaethedig ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol drwy’r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

**_1d Diwygio adran 4 o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy ddisodli 'gwaith teilwng' â 'gwaith teg' yn y nod presennol "Cymru lewyrchus"_**

Mae'r Gymdeithas o blaid y diwygiad gan fod 'gwaith teg' yn cyfleu'r cyd-destun polisi presennol yn well ac yn adlewyrchu'r ddadl wedi i'r Comisiwn Gwaith Teg gyhoeddi ei adroddiad a'i argymhellion.

**_Dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth weithredu eu prosesau caffael, i bennu amcanion ynghylch nodau llesiant ac i gyhoeddi strategaethau caffael_**

Mae Cynghorau Cymru eisoes yn ystyried cyfrifoldeb cymdeithasol ym maes caffael cyhoeddus wrth weithredu eu prosesau caffael, yn pennu amcanion ynghylch y nodau llesiant ac yn cyhoeddi strategaethau caffael. Os oes unrhyw gynghorau nad ydynt yn gwneud hynny, maent yn ôl pob tebyg yn gweithio'n unol â strategaethau cenedlaethol a chanllawiau i Gymru gyfan. Rydym hefyd yn cyhoeddi llwybrau prosiectau fel bod modd cael gwell gorolwg strategol ar gaffael a hysbysu darpar gontractwyr o gyfleoedd yn y dyfodol. Gwneir hynny fel arfer dda, ac felly nid yw'n afresymol i ddisgwyl y bydd pethau'n amrywio o un ardal i'r llall. Bydd sail ddeddfwriaethol yn grymuso'r gwaith ac yn hybu cysondeb yn genedlaethol. Mae Rheolau Caffael a Chontractau newydd ar y gweill yn y Deyrnas Gyfunol a bwriedir dod â'r rhain i rym ddiwedd 2023.

Mae'r rheolau hynny'n cynnwys newidiadau i hwyluso caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Yn ôl pob tebyg bydd yno ofynion gorfodol ynghylch tryloywder, gorfodaeth i gyhoeddi strategaethau caffael a gorfodaeth i gyhoeddi llwybrau caffael.

Mae caffael yn faes sydd wedi'i ddatganoli, ond mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i weithio â Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wrth ddiwygio'r rheolau. Deallwn fod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi mynd gerbron y Senedd ym mis Mehefin a bod y Gweinidogion yn paratoi ar gyfer cydsynio i fabwysiadu'r rheolau hun, neu roi rheolau tebyg iawn ar waith yng Nghymru.

Croesewir y diwygiadau hyn. Bydd rhoi'r gorau i'r gofyniad am y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd o blaid gofyniad llai penodol am y Tendr Mwyaf Manteisiol yn hybu gweithrediad y Ddeddf Gwerth Cymdeithasol yn Lloegr; drwy alluogi cyrff cyhoeddus dros y ffin i wneud gwell penderfyniadau caffael; drwy greu gwell dealltwriaeth o werth a'r ffordd y gellir defnyddio elfennau o werth nad ydynt yn ariannol wrth gynnal darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd.

Yng Nghymru mae gennym Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hon yn fwy uchelgeisiol na'r ddeddf gyfatebol yn Lloegr ond mae hefyd yn anos ei

gweithredu; mae'n ofynnol ystyried gwerth cymdeithasol yn ehangach a chymryd safbwynt gwahanol wrth ystyried beth yw ystyr gwerth a sut y gellir ei gyflawni. Rhagwelwn y bydd mabwysiadu deddfwriaeth y Deyrnas Gyfunol yng Nghymru'n hybu gweithrediad Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr un modd. Bydd yn sicrhau darpariaeth gyfwerth ar gyfer gwerth cymdeithasol yng Nghymru a hefyd yn ein galluogi i fynd ymhellach wrth gyflawni'r nodau llesiant.

Gallai hynny gynnwys gosod dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth weithredu eu prosesau caffael, i bennu amcanion ynghylch y nodau llesiant ac i gyhoeddi strategaethau caffael.

***1f Cyrff cyhoeddus penodol i gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y ceisir canlyniadau cymdeithasol gyfrifol drwy gadwyni cyflenwi.***

Mae Partneriaeth Gymdeithasol yn rhan o fywyd yng Nghymru ac yn y gorffennol mae Cynghorau wedi gwrthsefyll tueddiadau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol, fel gosod gwasanaethau cyfan ar gontractau allanol.

Ni fydd Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol sydd o blaid cyflogaeth deg mewn gwasanaethau wedi'u gosod ar gontractau allanol yn cael unrhyw effaith os na chaiff gwasanaethau eu gosod ar gontractau allanol.

Anaml y cyrchir gwasanaethau'n fewnol os na osodwyd gwasanaethau ar gontractau allanol yn y gorffennol. Eithriad i hyn fyddai methiant yn y farchnad lle mae angen i'r Cyngor sefyll yn y bwlch fel darparwr. Mae'r grymoedd i wneud hynny eisoes yn bodoli, fel y grym i gynnal lles y gymuned, er enghraifft.

Nid yw dim o hyn yn effeithio ar fodolaeth hawliau dynol, gweithrediad cyfraith cyflogaeth a dyletswyddau rheoleiddio Cynghorau yn eu cymunedau.

Mae'n debygol y bydd yno gydberthynas rhwng nerth y gwasanaethau rheoleiddio a nifer yr achosion o gam-drin y gweithlu; nid mater caffael yw hynny, fodd bynnag, gan y bydd cydymffurfio â'r gyfraith yn ofyniad sylfaenol i Gynghorau yn eu holl waith caffael beth bynnag.

Mae'r maes caffael wedi bod yn symud i ffwrdd o ddull gweithredu deuaidd ar sail cost ac ansawdd, gan fod hynny'n arwain yn anochel at ddyfarnu contractau ar sail y gost leiaf ar gyfer y math rhataf o ddarpariaeth. Mae a wnelo caffael cyfoes â darparu gwerth ymhob rhan o'r broses a'i fesur mewn termau real. Golyga hynny werthfawrogi'r hyn sy'n bwysig, a gallai hynny amrywio o un lle i'r llall. Mae'n rhaid pennu gwerth ar sail gwybodaeth drylwyr o anghenion y budd-ddeiliaid uniongyrchol ac ystyriaeth o'r holl effeithiau lleol a ddaw yn sgil penderfyniadau sy'n seiliedig ar werth. Mae cynghorau mewn sefyllfa ddelfrydol i wneud hynny.

Un gwahaniaeth pwysig rhwng rheoliadau caffael a chontractau cyhoeddus 2015 a'r rheoliadau a ddisgwylir ddiwedd 2023 yw'r newid o'r gofyniad am y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd i'r Tendr Mwyaf Manteisiol. Ni fydd angen mwyach i ystyried mantais yn nhermau economaidd yn unig.

***1g Gosod dyletswyddau adrodd ar y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru ynghylch y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a'r ddyletswydd Caffael.***

Mae rhywfaint o bryder ynglŷn â'r baich ar awdurdodau lleol a'r goblygiadau o ran adnoddau wrth fodloni'r gofynion adrodd ar gyfer holl ddarpariaethau'r Bil.

Ceir pryder hefyd ynglŷn â'r potensial y gallai adroddiadau eithrio yng nghyswllt y ddyletswydd caffael greu oedi diangen wrth benderfynu, a cheir dadl a yw'r darpariaethau arfaethedig yn gymesur ac yn ategu prosesau presennol yn hytrach nag amharu arnynt.

***2. Unrhyw rwystrau posib rhag gweithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried***

Yr her fwyaf yw'r gallu i gyflawni a chefnogaeth ar gyfer darpariaeth weithredol, yn enwedig felly gyda chaffael. Mae yno ewyllys a galluogrwydd, ond y gallu i gyflawni yw asgwrn y fynnen gan fod y gwasanaethau cefnogi corfforaethol hynny y mae'r Bil yn ddibynnol arnynt wedi wynebu rhai o'r toriadau mwyaf oherwydd cyni cyllidol.

Byddai'r Gymdeithas yn falch o weithio'n agosach â swyddogion Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu canllawiau ar gyfer gweithredu'r Bil ac wrth hwyluso a hyrwyddo rhagor o drafodaeth â'n rhwydweithiau awdurdodau lleol ynglŷn â Gwaith Teg a'r goblygiadau i lywodraeth leol yn y dyfodol.

***3. Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth (fel y'u pennir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)***

Byddem o blaid hyn.

***4. P'un a fydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi o'r Bil***

Mae grymuso arfer dda drwy ddiwygio deddfwriaethol yn sicr o arwain at risgiau newydd a chanlyniadau anfwriadol.

Y pryderon pennaf ym maes caffael yw'r baich gweinyddol a ddisgwylir a'r tebygolrwydd o ddiffyg cydymffurfiaeth mewn maes sydd eisoes yn gymhleth ac yn

destun deddfu helaeth.  Mae cynghorau'n pryderu'n bennaf ynghylch elfennau ymarferol.

Mae caffael yn dod yn fwyfwy dibynnol ar arbenigedd mewn meysydd penodol, ond cyflawnir y rhan helaeth o'r gwaith gan staff cyffredin yn y rheng flaen, gan nad oes digon o arbenigwyr caffael ar gael i wneud hynny.  Gallai darpariaethau'r Bil ei gwneud yn fwy tebygol y cyfyd diffyg cydymffurfiaeth yn anfwriadol neu am resymau technegol.

Pur anaml y mae caffael yn digwydd dan amgylchiadau delfrydol ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau gweithredol.  Pobl gyfrifol sy'n gwneud y penderfyniadau hyn am y rhesymau iawn, ond efallai y bydd darpariaethau'r Bil yn gwneud achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth ymarferol yn fwy tebygol.

Mae'n debygol y bydd seiliau ychwanegol ar gyfer heriau cyfreithiol yn arwain at roi'r rheiny ar brawf neu fanteisio arnynt mewn heriau cyfreithiol ychwanegol, gan gynnwys heriau blinderus. Mae heriau'n creu oedi, yn mynd ag adnoddau ac yn costio arian.  Ni fydd oedi penderfyniadau a chyfyngu ar ein gallu i ddyfarnu contractau'n beth buddiol.

Mae'n rhaid inni ochel rhag llyffetheirio arfer dda ar ddamwain.  Mae newid yn digwydd drwy'r amser a'r ymatebion a ddymunwn yw'r rhai hynny sy'n digwydd yn agosaf at y bobl sy'n derbyn y gwasanaethau, sy'n bodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau ac sy'n eu cynnwys fel budd-ddeiliaid.  Ni allwn adael i'r awydd i orchymyn a rheoli arferion caffael drwy ddeddfwriaeth ein hatal rhag medru bod yn ddyfeisgar ac yn ymatebol yn lleol.

***5. Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)***

Er nad oes modd ichi gynnwys popeth mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae a wnelo'r asesiad presennol o'r costau yn bennaf â'r costau hynny y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhagweld, ac nid yw costau sefydliadau eraill, sef y cyrff hynny a fydd yn destun prif ddarpariaethau'r Bil, yn cael eu hasesu na'u hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae angen mynd i'r afael â hyn.